"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 9fed Medi, 2024**, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan James Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

38. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

39. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

40. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 8fed GORFFENNAF, 2024**

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 8fed Gorffennaf, 2024.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(a) Eitem 30 (a) Cae Capel, Botwnnog – Cais Cynllunio C24/0205/32/LL**

**Adroddwyd ar y** nifer o e-byst dderbyniwyd o'r cyfryngau, uniogolion ynghyd a llythyr di-enw ynglyn a'r cais uchod (copiau wedi eu hanfon i bob aelod ymlaen llaw).

Nid oedd y Clarc wedi ymateb i unrhyw un o'r ohebiaeth nac i gais am gyfweliad gan y cyfryngau ac 'roedd y Cyngor yn cytuno â hyn Yn amlwg fod gwrthwynebiad y Cyngor wedi cael ei gamddehongli.

Adroddodd y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd, i'r cais gael ei wrthod yn gynharach ar y diwrnod o saith pleidlais i chwech ac fod yna gyfnod o 'gnoi cil' yn digwydd 'nawr.

**Penderfynwyd** paratoi Datganiad i'r Wasg ac fod y cyfryw i'w ddosbarthu mor eang ag oedd bosibl gyda'r cyfryw yn cael ei gyhoeddi yn Llanw Llŷn ym mis Hydref.

Gweler isod y Datganiad baratowyd gan Y Cynghorydd Michael Strain, Cadeirydd y Cyngor (yn y ddwy iaith):

" **DATGANIAD I'R WASG GAN GYNGOR CYMUNED BOTWNNOG**

Neithiwr, yn eu cyfarfod mis Medi, fe groesawodd Cyngor Cymuned Botwnnog benderfyniad Cyngor Sir Gwynedd i wrthod cais i ddatblygu 18 o dai i'w gosod ar dir Cae Capel,Botwnnog.

Bu cam ddehongli a cam adrodd sylweddol ar sylwadau y Cyngor yr wythnos ddiwethaf ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn anffodus, gan sawl ffynhonell newyddion cydnabyddedig arall, a mi oedd hyn yn siom mawr i'r Cynghorwyr.

Gorddatblygiad yw Cae Capel. Mae 18 o dai cymdeithasol mewn pentref gyda oddeutu 50 o dai presennol yn gynydd o 35% o'r stoc tai. Golygai galw ychwanegol ar y gwasanaethau lleol, y feddygfa, yr ysgolion a'r gwasanaethau dŵr a charffosiaeth.

Nid oes tystiolaeth amlwg fod angen 18 o dai cymdeithasol yn y pentref a golygai hyn y gall pobl o ben arall i Wynedd gael eu cartrefu yma. Mae dod a phobl o ran arall y Sir i bentref sydd yng nghyfrifiad diwethaf, gyda 78% o siaradwyr Cymraeg ynddi, yn her i iaith y gymuned ac yn gallu gweddnewid natur y pentref.

Mae cynnal a datblygu cymunedau Cymreig fel pentref Botwnnog yn gorfod bod yn un o gonglfeini ymgyrch y Llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae tai a gwaith i bobl leol, yn eu cymunedau, yn allweddol os mae'r Gymraeg am ffynnu a goroesi. Nid drwy or-ddatblygu, megis cynllun Cae Capel, y cawn y maen i'r wal a mawr obeithiwn y bydd y Cyngor Sir yn cadw at eu penderfyniad.

Michael Strain, Cadeirydd y Cyngor

10fed Medi, 2024

**PRESS RELEASE BY BOTWNNOG COMMUNITY COUNCIL**

At their monthly September meeting held last night Cyngor Cymuned Botwnnog welcomed Cyngor Gwynedd's decision to refuse the application for 18 social houses at Cae Capel Botwnnog.

The misreporting and distortion over the past week on both, social media, and by reputable media sources of the Council's objections to the proposed development, was disappointing and unfounded.

The Community Council represented the voices of the residents of Botwnnog who considered this plan to build 18 social houses in community of only 50 homes to be an over development, placing added burdens on already over stretched GP services, schools and waste and water utilities. The lack of clear evidence of local need for this number of social houses within this community added to concerns that the properties would be let to people at the opposite end of the county, from non-Welsh speaking communities in Gwynedd, diminishing further the 78% of the current population who speak Welsh.

Maintaining and encouraging Welsh speaking communities to flourish is essential if the Government is to reach its target of a million Welsh speakers by 2050.We agree housing and employment opportunities for people within their own villages is key, but large developments such as Cae Capel is not the answer.

Michael Strain, Chairman of the Council

10th September, 2024"

**Eitem 30(b) – Gwaith trin Gwastraff rhwng Trewen a Phen y Bont, Botwnnog**

**Cyflwynwyd** atebiad gan Reolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff fel a ganlyn am yr arogl o'r gwaith trin:

"Rwy'n falch i ddweud nad oes unrhyw faterion neu bryderon yn y GTDG ond os bydd y broblem yn parhau, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl drwy ein gwasanaeth adweithiol 24 awr rhad ac am ddim ar 0800 085 3968. Yna gallwn ymchwilio ymhellach iddo."

Yna gyda'r tanceri ger Dolafan, Botwnnog:

"Gan droi at yr SPS, roedd y tancer a welwyd ar y safle o ganlyniad i rhwystr yn y brif bibell o'r safle i'r GTDG. Trefnwyd i'r brif bibell gael ei jetio a defnyddiwyd y tanceri i gynnal y llif. Gallaf gadarnhau fod hyn bellach wedi'i ddatrys."

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

**Eitem 30(c) – Rheolau Sefydlog**

**Dosbarthwyd** copiau wedi eu haddasu o'r Rheolau Sefydlog a **phenderfynwyd** fod yr aelodau i edrych drostynt a chyflwyno unrhyw sywladau i'r Cyngor nesaf.

(b) **Ceisiadau am Gyfraniadau Ariannol**

**Cyflwynwyd** ymateb Un Llais Cymru i gais dderbyniwyd gan Cyngor Cymuned Llanengan fel a ganlyn:

"rwy'n meddwl y gallwch chi gyfrannu **os** ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect hwn o fudd i'ch Cymuned. Bydd yn rhaid i Fenter Rabar hefyd fod yn grŵp ca chyfansoddiad priodol gyda chyfrif banc ac ati.

Yn olaf, bydd yn rhaid ei dalu o dan A137 a'i osod yn beryn eich limit S137."

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth a thrafod y cais eto ym mis Ionawr gyda'r ceisiadau eraill am gyfraniadau ariannol.

## 41. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais am ystyriaeth.

## 42. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen i Beiriannydd Ardal Dwyfor:

Y ffordd o Ty'n Coed am Ty Fair, Bryncroes wedi cau

Tynnu sylw unwaith yn rhagor ar y drain a'r coed yn disgyn i lawr ar y ffordd gefn heibio Pencraig Fawr, Sarn

Ymhellach **cyflwynodd** Y Cynghorydd Gareth Williams, gais gan aelod o'r cyhoedd am gael arwydd mwy ar gyffrodd Pedair Croeslon i ddynodi'r cyfeiriad am bentref 'BRYNCROES.'

**Penderfynwyd** gwneud ymholiadau beth fyddai'r gôst.

Yna, **tynnodd** aelod sylw at y goryrru sydd yn digwydd i lawr Allt Mellteyrn ac hefyd o Dafarn Penybont am Crugeran – perygl i gerddwyr ac yn enwedig pan mae plant yn cerdded i gyfarfod y bws Ysgol.

**Penderfynwyd**

(a) gofyn i'r Heddlu bresenoli eu hunain yn enwedig yn y boreau a'r prynhawn er ceisio arafu'r traffig.

(b) Tynnu sylw 'Go Safe' at y pryderon hyn.

## 42 AWDURDOD I DALU

**Awdurdodwyd** y taliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd – archwilio'r cyfrifon 2023/24 | £360.00 (200841) |
| HMRC | £105.00 (200839) |
| Y Clarc | £420.00 (200840) |

**Yn y cyswllt hwn** tynnodd y Clarc sylw fod bil wedi ei dderbyn o Archwilio Cymru am Archwiliad 2020/21 a chan fod y cyfryw yn uchel gwelwyd yn ôl y tabl dderbyniwyd mai tâl am 'farn archwilio amodol' oedd hwn tra fod yr adroddiad am y flwyddyn yn dangos mai barn 'ddiamod' dderbyniwyd.

**Penderfynwyd** tynnu sylw unwaith eto at hyn a gofyn am eu sylwadau.

## 43. CYRSIAU UN LLAIS CYMRU

Gan nad oedd rhestr am fisoedd Hydref ymlaen wedi cyrraedd penderfynwyd aros.

44. **LLOCHES BWS YM MOTWNNOG**

**Yn wyneb y cais cynllunio ar Gae Capel, Botwnnog, penderfynwyd** gohirio ystyried gosod lloches bws ger y Feddygfa.